

TROSOLWG O DDILYNIANT SAFONAU ADDYSGU MEWN PROFIADAU ADDYSGU PROFFESIYNOL (Statws Athrawon Cymwysedig)

S1 Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol

LEFEL 4 PAP Lefel 1 (Blwyddyn 1 a MASAC)	LEFEL 5 PAP Lefel 2 (Blwyddyn 2)	LEFEL 6 PAP Lefel 3 (Blwyddyn 3, TAR a MASAC)
- Gyda chymorth, maent yn gosod amcanion dysgu ac addysgu priodol ar gyfer pob dysgwr yn seiliedig ar lwyddiannau'r gorffennol i'w alluogi i wneud cynnydd yn ei ddysgu. - Maent yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r materion y mae plant o amrywiol gefndiroedd yn debygol o'u hwynebu. - Maent yn ymwybodol o'r angen i ddewis adnoddau sy'n dangos eu bod yn gwerthfawrogi amrywiaeth a'u bod yn sensitif i anghenion grwpiau gwahanol.	- Gyda chymorth lle bo angen, maent yn gosod amcanion dysgu ac addysgu priodol ar gyfer pob dysgwr yn seiliedig ar lwyddiannau'r gorffennol i'w alluogi i wneud cynnydd yn ei ddysgu. - Maent yn dangos peth ymwybyddiaeth o'r materion y mae plant o amrywiol gefndiroedd yn debygol o'u hwynebu. - Maent yn dangos dealltwriaeth eglur o'r angen i ddewis adnoddau sy'n dangos eu bod yn gwerthfawrogi amrywiaeth a'u bod yn sensitif i anghenion grwpiau gwahanol.	S1.1 Maent yn deall gwahanol anghenion dysgu dysgwyr ac yn ymdrechu i ddarparu'r addysg orau bosibl i'w galluogi i wneud y gorau o'u potensial, beth bynnag fo'u dyheadau unigol, eu hamodau personol, neu eu cefndir diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac ethnig.
- Maent yn ymddwyn yn briodol ac yn broffesiynol. - Maent yn darparu model o'r agweddau a'r ymddygiad	- Maent yn sefydlu perthynas dda â dysgwyr, ar sail parch o'r ddeutu. - Maent yn creu amgylchedd dysgu cefnogol drwy adeiladu perthnasau	S1.2 Maent yn dangos y proffesiynoldeb sy'n sicrhau mai ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddeutu yr adeileddir perthynas â dysgwyr ac

cadarnhaol a ddisgwylir gan ddysgwyr, er enghraifft, trwy eu hiaith lafar. Maent yn defnyddio perthnasau cadarnhaol, cynhyrchiol â dysgwyr i gefnogi eu dysgu a'u hunan-barch.	cadarnhaol â dysgwyr.	yn cydnabod y bydd hyn yn help i wneud y gorau o'u potensial i ddysgu.
- Maent yn trin dysgwyr â pharch ac yn cyfrannu'n weithredol at yr hyn maent yn ei ddysgu ac at fywyd y dosbarth. - Maent yn deall arwyddocâd hunan-barch, disgwyliadau ac anogaeth yr athro, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar ddysgu. - Maent yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o wahaniaethau unigol dysgwyr ac o'u hamrywiaeth.	- Maent yn gweithredu polisïau ac arfer yr ysgol, megis ymddygiad, bwlio, cyfle cyfartal ac aflonyddu. - Maent yn hyrwyddo hunan-barch dysgwyr ac yn eu hannog i gymryd rhan yn y dysgu. - Maent yn dangos dealltwriaeth o gefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac ethnig dysgwyr ac mae disgwyliadau uchel ganddynt o bob dysgwr. - Maent yn darparu model o'r agweddau, y gwerthoedd a'r ymddygiad y mae'r ysgol yn ceisio eu hyrwyddo.	S1.3 Maent yn dangos cyfuniadau o nodweddion proffesiynol sy'n anelu at annog ac ysbrydoli dysgwyr ac yn sicrhau eu datblygiad deallusol a phersonol.
- Maent yn dechrau deall y rôl bwysig mae rhieni a gofalwyr yn ei chwarae wrth i ddysgwyr ddysgu. - Maent yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfathrebu'n glir gyda rhieni a gofalwyr.	- Maent yn dechrau meithrin perthynas bositif rhwng yr ysgol a'r cartref. - Dan oruchwyliaeth yr athro, maent yn dangos eu bod yn deall pwysigrwydd cyfathrebu gyda	S1.4 Maent yn cydnabod pwysigrwydd mynegi gwybodaeth a disgwyliadau yn eglur ac yn sensitif i rieni a gwarcheidwaid, ac o feithrin perthynas bositif rhwng y cartref a'r ysgol.

	rhieni a gofalwyr yn briodol.	
• Maent yn dangos ymwybyddiaeth o agweddau a gwerthoedd yr ysgol. • Dan gyfarwyddyd yr athro, maent yn dechrau ymwneud â dysgu y tu allan i'r ysgol, gweithgareddau allgyrsiol, neu weithgareddau cyfoethogi. • Maent yn dangos ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach.	• Maent yn ymddwyn yn unol ag agweddau a gwerthoedd yr ysgol. • Maent yn cyfrannu at y cynllunio ac yn deall effaith y canlynol ar ddysgu gan ddysgwyr: dysgu y tu allan i'r ysgol, gweithgareddau allgyrsiol, neu weithgareddau cyfoethogi. • Maent yn dangos awydd i gyfrannu at fywyd cyffredinol yr ysgol yn y gymuned ehangach.	S1.5 Maent yn ymdrechu i hyrwyddo lle'r ysgol o fewn y gymuned ehangach.
• Maent yn dangos peth dealltwriaeth o'r modd y gall oedolion eraill gyfrannu at ddysgu ac addysgu. • Maent yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o rôl gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â lles ac addysg plant. • Maent yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r berthynas waith gydweithredol mewn timau addysgu.	• Gyda chymorth, maent yn dechrau cynllunio ar gyfer defnyddio oedolion eraill yn effeithiol yn y dosbarth. • Maent yn gwybod sut i gydweithio'n effeithiol â rhwydwaith o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â lles ac addysg plant. • Maent yn cyfrannu at y berthynas waith gydweithredol mewn timau addysgu.	S1.6 Maent yn cydnabod ac yn deall y cyfraniad a wneir ac sy'n angenrheidiol oddi wrth staff cymorth a gweithwyr proffesiynol eraill yn y broses ddysgu.
• Maent yn arsylwi, yn adfyfyrio ac	• Mae'r hyfforddai yn adolygu, yn	S1.7

yn dechrau dadansoddi er mwyn gosod targedau i wella eu haddysgu. • Maent yn dangos parodrwydd i dderbyn cyngor ac yn cymryd cyfrifoldeb dros geisio ei weithredu a datblygu'n broffesiynol. • Maent yn dangos ymwybyddiaeth o arwyddocâd gwybodaeth broffesiynol wedi'i diweddaru i gefnogi eu haddysgu eu hunain.	adfyfrio ac yn dadansoddi er mwyn adnabod cryfderau / diffygion ac yn gosod targedau i wella eu haddysgu. • Maent yn croesawu cyngor ac yn gweithredu yn unol ag ef yn gadarnhaol ac yn gynhyrchol er mwyn datblygu'n broffesiynol. • Maent yn defnyddio gwybodaeth broffesiynol wedi'i diweddaru i gael effaith ar ddysgu ac addysgu.	Maent yn gallu cyfrannu at ddatblygiad ehangach yr ysgol a'r proffesiwn, ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw gwybodaeth broffesiynol, dealltwriaeth a sgiliau wedi'u diweddaru ac maent yn gallu adfyfrio ar eu harfer eu hunain. Maent yn cydnabod eu hanghenion eu hun ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu datblygiad proffesiynol parhaus.
• Maent yn dangos ymwybyddiaeth a pheth dealltwriaeth o agweddau perthnasol ar ymddygiad proffesiynol ac amodau gwasanaeth. • Maent yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd a diogelwch. • Maent yn gwybod sut a ble i ofyn cyngor am faterion cyfrinachol, amddiffyn plant a chyfrifoldebau athrawon o dan God Ymarfer AAA Cymru.	• Gyda chymorth, maent yn dangos ymddygiad proffesiynol priodol a dealltwriaeth gynyddol o amodau gwasanaeth. • Maent yn mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch. • Maent yn gwybod pryd a chan bwy i ofyn cyngor am faterion cyfrinachol, a chyfrifoldebau athrawon o dan God Ymarfer AAA Cymru.	S1.8 Maent yn ymwybodol o'r fframweithiau statudol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau athrawon ac yn gweithio o'u mewn.

S2 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

LEFEL 1 (4)	LEFEL 2 (5)	LEFEL 3 (6)
• Maent yn dechrau dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol yn y pwnc neu'r pynciau y maent wedi'u hyfforddi i addysgu ynddynt. • Mae'r ymchwil ar gyfer addysgu'n drwyadl yn y cam hwn o'r hyfforddiant.	• Maent yn dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau graenus yn y pwnc neu'r pynciau y maent wedi'u hyfforddi i addysgu ynddynt. • Maent yn ymchwilio ar gyfer yr addysgu'n drwyadl ac mae ganddynt afael gadarn ar y cynnwys.	S2.1 Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pwnc neu'r pynciau y maent wedi'u hyfforddi i addysgu ynddynt.
• Maent yn dechrau dangos gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o Ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ac amcanion a chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. • Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Fframwaith Sgiliau, y datganiad Cynnwys Pob Dysgwr, y Cwricwlwm Cymreig, ABCh ac ADCDF yn briodol ar gyfer y cam hwn o'r hyfforddiant.	• Maent yn dangos lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth o Ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ac amcanion a chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. • Mae'r wybodaeth o'r Fframwaith Sgiliau, y datganiad Cynnwys Pob Dysgwr, y Cwricwlwm Cymreig, ABCh ac ADCDF yn raenus.	S2.2 Maent yn gwybod ac yn deall amcanion a chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol; yn benodol:- <i>y gofynion a'r hawliau a bennir yn y datganiad Cynnwys Pob Dysgwr sy'n ymddangos ar ddechrau pob trefn pwnc a fframwaith yn y Cwricwlwm Cenedlaethol</i> <i>y gwerthoedd, yr amcanion a'r dibenion a'r gofynion addysgu cyffredinol a osodir yn Manteisio i'r eithaf ar Ddysgu - gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig, y Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru a Sgiliau ar draws y Cwricwlwm</i> <i>nodweddion diwylliannol, economaidd,</i>

		<i>amgylcheddol hanesyddol ac ieithyddol Cymru (y Cwricwlwm Cymreig)</i> <i>Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (ABCh)</i> <i>y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF).</i>
Maent yn dechrau deall continwwm y broses ddysgu i ddysgwyr.	Maent yn deall continwwm y broses ddysgu i ddysgwyr ac yn ei gymryd i ystyriaeth.	S2.3 Maent yn ymwybodol o'r disgwyliadau, y cwricwla nodweddiadol a'r trefniadau addysgu yn y Cyfnodau Allweddol neu'r cyfnodau cyn ac ar ôl y rheini y'u hyfforddwyd i'w haddysgu.
Maent yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad dysgwyr a'u dysgu.	Maent yn dangos dealltwriaeth gymwys o ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad dysgwyr a'u dysgu ac yn cymhwyso hyn yn dda yn eu haddysgu.	S2.4 Maent yn deall sut y gall datblygiad corfforol, deallusol, ieithyddol, cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol dysgwyr effeithio ar eu dysgu.
Mae'r hyfforddai yn gallu defnyddio TGCh i addysgu ac mae'n dechrau gwerthuso defnydd priodol ohoni yn y dosbarth.	- Maent yn defnyddio TGCh yn hyderus ac yn gymwys yn ystod gweithgareddau addysgu ac yn dechrau gwerthuso ei gwerth. - Maent yn gwneud defnydd priodol	S2.5 Maent yn gwybod sut i ddefnyddio TGCh yn effeithiol, i addysgu eu pwnc ac i gefnogi eu rôl broffesiynol ehangach.

• Maent yn dechrau defnyddio TGCh i gynnal ystod o weithgareddau proffesiynol, er enghraifft, cynllunio ac asesu.	o TGCh i gynnal gweithgareddau proffesiynol eraill megis cynllunio ac asesu.	
• Maent yn dangos ymwybyddiaeth sylfaenol o'u cyfrifoldebau o dan God Ymarfer AAA Cymru. • Gyda chymorth, maent yn gwybod sut i geisio cyngor ar fathau llai cyffredin o anghenion addysgol arbennig.	• Mae'u hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau o dan God Ymarfer AAA Cymru wedi'i datblygu'n briodol. • Maent yn gallu ceisio cyngor pan fo angen ar fathau llai cyffredin o anghenion addysgol arbennig.	S2.6 Maent yn deall eu cyfrifoldebau o dan <i>God Ymarfer AAA Cymru</i> ac yn gwybod sut i geisio cyngor gan arbenigwyr ar fathau llai cyffredin o anghenion addysgol arbennig.
• Maent yn dechrau caffael gwybodaeth am strategaethau i hybu ymddygiad da ac i sefydlu amgylchedd dysgu ag iddo pwrpas.	• Maent yn datblygu eu gwybodaeth am strategaethau i hybu ymddygiad da ac i sefydlu amgylchedd dysgu ag iddo pwrpas.	S2.7 Maent yn gwybod am ystod o strategaethau i hybu ymddygiad da ac i sefydlu amgylchedd dysgu ag iddo pwrpas.

S3 Addysgu

S3.1 Cynllunio, disgwyliadau a thargedau

Lefel 1 (4)	Lefel 2 (5)	Lefel 3 (6)
- Maent yn dechrau nodi amcanion dysgu sy'n berthnasol i oedran neu gyfnod datblygiad y dysgwyr ac sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol. - Maent yn dechrau gosod amcanion dysgu eglur.	- Maent yn nodi amcanion dysgu sy'n berthnasol i oedran neu gyfnod datblygiad pob dysgwr ac sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol. - Maent yn gosod amcanion dysgu eglur.	S3.1.1 Maent yn gosod amcanion addysgu a dysgu ymestynnol sy'n berthnasol i bob dysgwr yn eu dosbarthiadau. Maent yn seilio'r rhain ar eu gwybodaeth: (a) o'r dysgwyr; (b) tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd ganddynt, yn y gorffennol ac yn gyfredol; (c) o'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddysgwyr o'r ystod oed perthnasol; (ch) ystod a chynnwys gwaith sy'n berthnasol i ddysgwyr yn yr ystod oed hwnnw.
- Maent yn dechrau cysylltu'r addysgu a gynllunnir ag amcan(ion) dysgu penodol. - Maent yn dechrau ystyried cynnwys asesu ar gyfer dysgu o fewn eu cynllunio. - Rhoddir sylw i gynllunio ar gyfer	- Maent yn cysylltu'r addysgu a gynllunnir ag amcan(ion) dysgu penodol. - Maent yn cynnwys cynllunio ar gyfer asesu ar gyfer dysgu. - Maent yn rhoi ystyriaeth briodol i gynllunio ar gyfer anghenion	S3.1.2 Maent yn defnyddio'r amcanion addysgu a dysgu hyn i gynllunio gwersi, a dilyniannau o wersi, gan ddangos sut y byddant yn asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr. Maent yn rhoi ystyriaeth i anghenion amrywiol dysgwyr

anghenion amrywiol y dysgwyr.	amrywiol pob dysgwr.	ac yn eu cefnogi fel y gall pob un a addysgir ganddynt wneud cynnydd sylweddol.
• Maent yn dechrau dewis neu baratoi adnoddau addas i fod o gymorth wrth gynllunio. • Rhoddir ystyriaeth briodol i ddarparu adnoddau sy'n cydweddu ag anghenion dysgwyr. • Maent yn rhoi sylw priodol i'r defnydd diogel o adnoddau.	• Mae'r hyfforddai'n dewis neu'n paratoi adnoddau sy'n addas ar gyfer yr addysgu. • Maent yn darparu adnoddau sy'n cydweddu ag anghenion dysgwyr. • Maent yn gallu trefnu adnoddau'n dda a rhoddir sylw priodol i'w defnyddio'n ddiogel.	S3.1.3 Maent yn dewis ac yn paratoi adnoddau, ac yn cynllunio ar gyfer eu trefnu'n ddiogel ac yn effeithiol, gan roi ystyriaeth i ddiddordebau dysgwyr, eu hiaith a'u cefndiroedd diwylliannol, gyda chymorth staff cefnogi pan fo hynny'n briodol.
• Yn ôl yr hyn sy'n briodol i'r ysgol, maent yn cyfrannu ar lefel sylfaenol at weithgareddau cydweithredol timau addysgu. • Gyda chyfarwyddyd, maent yn dechrau ystyried sut i leoli'n addas oedolion sy'n cefnogi dysgu mewn plant a phobl ifanc.	• Maent yn cyfrannu'n dda at weithgareddau cydweithredol timau addysgu. • Maent yn gallu cynllunio ar gyfer lleoli'n addas oedolion eraill sy'n cefnogi dysgu mewn plant a phobl ifanc.	S3.1.4 Maent yn cymryd rhan mewn timoedd addysgu, ac yn cyfrannu tuag atynt, yn ôl yr hyn sy'n briodol i'r ysgol. Pan fo'n gymwys, maent yn cynllunio ar gyfer lleoli oedolion ychwanegol sy'n cefnogi dysgu mewn plant a phobl ifanc.
• Gyda chyfarwyddyd, maent yn cyfrannu at gynllunio ar gyfer gweithgareddau cynnydd (megis gwaith maes, neu ddysgu mewn cyd-destunau y tu allan i'r ysgol).	• Gydag chymorth staff lle bo'n briodol, mae'r hyfforddai yn gallu cynllunio ar gyfer gweithgareddau cynnydd (megis gwaith maes, neu ddysgu mewn cyd-destunau y tu allan i'r ysgol).	S3.1.5 Fel sy'n berthnasol i'r ystod oed y maent wedi'u hyfforddi i'w addysgu, maent yn gallu cynllunio cyfleoedd i'r rheini y maent yn eu haddysgu i ddysgu mewn cyd-destunau y tu allan i'r ysgol, megis ymweliadau ysgol, amgueddfeydd, theatrau, gwaith maes a lleoliadau ar sail cyflogaeth, gyda chymorth eraill o'r staff

		pan fo hynny'n briodol.
--	--	-------------------------

S3.2 Monitro ac Asesu

• Maent yn dechrau defnyddio strategaethau monitro ac asesu priodol i asesu cynnydd dysgwyr. • Gyda chyfarwyddyd, maent yn gallu canolbwyntio ar amcanion dysgu penodol wrth asesu cynnydd dysgwyr. • Maent yn dechrau defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio'r cam nesaf ym mhroses ddysgu'r dysgwyr.	• Maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o strategaethau asesu i asesu cynnydd dysgwyr. • Maent yn cysylltu'n briodol ag amcanion dysgu penodol wrth wneud asesiadau. • Maent yn defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio'r cam nesaf ym mhroses ddysgu'r dysgwyr.	S3.2.1 Maent yn gwneud defnydd priodol o ystod o strategaethau monitro ac asesu i werthuso cynnydd dysgwyr tuag at amcanion dysgu a gynlluniwyd, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella eu cynllunio a'u haddysgu eu hunain.
• Maent yn dechrau defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu i roi adborth unionsyth ac adeiladol i'r dysgwyr. • Maent yn dechrau cael dysgwyr i adfyfrio ar yr hyn maent wedi'i ddysgu a gwneud gwelliannau i'w gwaith.	• Mae'r hyfforddai'n defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn ystod gwersi i roi adborth unionsyth ac adeiladol i'r dysgwyr. • Maent yn cael dysgwyr i adfyfrio ar yr hyn maent wedi'i ddysgu a gwneud gwelliannau i'w gwaith.	S3.2.2 Maent yn monitro ac yn asesu wrth iddynt addysgu, gan roi adborth unionsyth ac adeiladol i gefnogi dysgwyr fel y maent yn mynd yn eu blaenau. Maent yn cael dysgwyr i adfyfrio ar eu perfformiad eu hunain, ac i'w werthuso a'i wella.
• Gyda chyfarwyddyd, maent yn dechrau asesu cynnydd dysgwyr gan ddefnyddio Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm	• Pan fo'n briodol, maent yn asesu cynnydd dysgwyr gan ddefnyddio Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.	S3.2.3 Maent yn gallu asesu cynnydd dysgwyr yn gywir gan ddefnyddio, yn ôl eu perthnasedd, Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen, disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm

Cenedlaethol.		Cenedlaethol, meini prawf o gymwysterau cenedlaethol, gofynion Cyrff Dyfarnu, fframweithiau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu amcanion o'r canllawiau perthnasol. Gallant gael cyfarwyddyd gan athro profiadol pan fo hynny'n briodol.
Dan gyfarwyddyd yr athro dosbarth, mae'r hyfforddai'n dechrau adnabod dysgwyr mwy galluog a dawnus a'u cefnogi, y rheini sy'n gweithio islaw'r disgwyliadau cysylltiedig ag oed, y rheini sy'n methu â chyflawni eu potensial mewn dysgu, a'r rheini sy'n cael problemau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.	Gyda chyfarwyddyd, maent yn adnabod dysgwyr mwy galluog a dawnus ac yn dechrau darparu cefnogaeth briodol ar eu cyfer, ar gyfer y rheini sy'n gweithio islaw'r disgwyliadau cysylltiedig ag oed, y rheini sy'n methu â chyflawni eu potensial mewn dysgu, a'r rheini sy'n cael problemau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.	S3.2.4 Maent yn adnabod dysgwyr mwy galluog a dawnus ac yn eu cefnogi, y rheini sy'n gweithio islaw'r disgwyliadau cysylltiedig ag oed, y rheini sy'n methu â chyflawni eu potensial mewn dysgu, a'r rheini sy'n cael problemau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Gallant gael cyfarwyddyd gan athro profiadol pan fo hynny'n briodol.
- Gyda chyfarwyddyd, maent yn dechrau adnabod lefelau cyrhaeddiad y rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu haddysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith neu i ffurf iaith eu cartref. - Maent yn dechrau dadansoddi gofynion iaith a gweithgareddau dysgu'r dysgwyr er mwyn ceisio rhoi cefnogaeth ieithyddol	- Gyda chyfarwyddyd, maent yn adnabod lefelau cyrhaeddiad y rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu haddysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith neu i ffurf iaith eu cartref. - Maent yn dechrau dadansoddi gofynion iaith a gweithgareddau dysgu ac yn dechrau rhoi sialens wybyddol yn ogystal â chefnogaeth ieithyddol.	S3.2.5 Gydag chymorth athro profiadol, maent yn gallu adnabod lefelau cyrhaeddiad y rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu haddysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith neu i ffurf iaith eu cartref. Maent yn dechrau dadansoddi gofynion iaith a gweithgareddau dysgu er mwyn rhoi sialens wybyddol yn ogystal â chefnogaeth ieithyddol.

briodol.		
- Maent yn dechrau datblygu systemau i gofnodi cynnydd a llwyddiannau dysgwyr er mwyn darparu tystiolaeth o ystod eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros amser. - Maent yn dechrau defnyddio cofnodion i gynorthwyo dysgwyr i adolygu eu cynnydd eu hunain ac i oleuo cynllunio.	- Maent yn cofnodi cynnydd a llwyddiannau dysgwyr er mwyn darparu tystiolaeth o ystod eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros amser. - Maent yn datblygu eu defnydd o gofnodion i gynorthwyo dysgwyr i adolygu eu cynnydd eu hunain ac i oleuo cynllunio.	S3.2.6 Maent yn cofnodi cynnydd a llwyddiannau dysgwyr er mwyn darparu tystiolaeth o ystod eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros amser. Maent yn defnyddio hyn i gynorthwyo dysgwyr i adolygu eu cynnydd eu hunain ac i oleuo cynllunio.
Maent yn dechrau defnyddio cofnodion fel sail i adrodd ar gyraeddiadau a chynnydd dysgwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn gywir i ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â dysgu gan ddysgwyr.	Maent yn dangos gallu cynyddol i ddefnyddio cofnodion fel sail i adrodd ar gyraeddiadau a chynnydd dysgwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn gywir i rieni, gofawyr, gweithwyr proffesiynol eraill a dysgwyr.	S3.2.7 Maent yn gallu defnyddio cofnodion fel sail i adrodd ar gyraeddiadau a chynnydd dysgwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn gryno, yn wybodus ac yn gywir i rieni, gofawyr, gweithwyr proffesiynol eraill a dysgwyr.

S3.3 Addysgu a rheoli dosbarth

- Maent yn dechrau meithrin perthynas lwyddiannus yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel. - Maent yn ceisio sefydlu amgylchedd dysgu pwrpasol lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus.	- Maent yn defnyddio disgwyliadau uchel oddi wrth ddysgwyr i feithrin perthynas lwyddiannus, gyda dysgu ac addysgu yn ganolog iddi. - Maent yn sefydlu amgylchedd dysgu pwrpasol lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus.	S3.3.1 Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel oddi wrth ddysgwyr ac yn meithrin perthynas lwyddiannus, gyda dysgu ac addysgu yn ganolog iddi. Maent yn sefydlu amgylchedd dysgu pwrpasol lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn
--	--	--

		hyderus.
- Gyda chymorth, maent yn dechrau gallu addysgu'r cwricwlwm i ddysgwyr yn yr ystod oedran y maent wedi'u hyfforddi ar ei gyfer. - Maent yn dechrau gwneud defnydd priodol o'r Cwricwlwm Cymreig.	- Gyda chymorth lle bo'n briodol, maent yn addysgu'r cwricwlwm i ddysgwyr yn yr ystod oedran y maent wedi'u hyfforddi ar ei gyfer. - Maent yn gwneud defnydd priodol o'r Cwricwlwm Cymreig.	S3.2.2 Maent yn gallu addysgu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol neu'n ddisgwyliedig mewn perthynas â'r cwricwlwm i ddysgwyr yn yr ystod oedran y maent wedi'u hyfforddi i'w addysgu, a gwneud defnydd priodol o'r Cwricwlwm Cymreig. <i>Mewn perthynas â chyfnodau penodol:</i> (a) <i>fod y rheini sy'n cymhwyso i addysgu plant Cyfnod Sylfaen yn addysgu â medrusrwydd ac yn annibynnol y saith maes dysgu sy'n ffurfio cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac a gwmpesir yn y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 mlwydd oed yng Nghymru;</i> (b) <i>fod y rheini sy'n cymhwyso i addysgu dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 yn addysgu'r pynciau craidd – mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg, ac, i'r rheini sydd ar gwrs HCA a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg, Cymraeg (fel iaith gyntaf) – gyda medrusrwydd ac yn annibynnol. Eu bod hefyd yn addysgu ystod o waith ar draws y pynciau canlynol:-</i> ■ <i>hanes</i>

		▪ <i>daearyddiaeth</i> ▪ <i>technoleg gwybodaeth (TGCh)</i> ▪ <i>celf</i> ▪ <i>dylunio a thechnoleg</i> ▪ <i>celfyddydau perfformio</i> ▪ <i>addysg gorfforol</i> ▪ <i>Cymraeg fel ail iaith</i> <i>yn annibynnol, gyda chynghor gan gydweithiwr profiadol pan fo hynny'n briodol. Rhaid i bob un sy'n cymhwyso i addysgu pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 allu defnyddio'r sgiliau a'r dysgu a gwmpesir yn y Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru yn eu haddysgu, yn ôl y priodoldeb.</i>
• Maent yn dechrau ennyn diddordeb dysgwyr a'u hannog trwy eu haddysgu. • Gyda chymhwysedd cynyddol, maent yn gwneud amcanion dysgu'n glir i ddysgwyr. • Maent yn dechrau defnyddio dulliau addysgu rhyngweithiol a gwaith grŵp cydweithredol. • Maent yn dechrau hybu dysgu gweithredol ac annibynnol.	• Maent yn ennyn diddordeb dysgwyr ac yn eu hannog trwy eu haddysgu. • Maent yn mynegi amcanion dysgu yn glir i ddysgwyr. • Gyda chymhwysedd cynyddol maent yn defnyddio dulliau addysgu rhyngweithiol a gwaith grŵp cydweithredol. • Maent yn hybu dysgu gweithredol ac annibynnol yn gyson yn eu gwersi.	S3.3.3 Maent yn addysgu gwersi neu ddilyniannau o waith wedi'u strwythuro'n glir sy'n ddiddorol i ddysgwyr ac yn eu hannog, ac sydd: • yn gwneud amcanion dysgu'n glir i ddysgwyr; • yn defnyddio dulliau addysgu rhyngweithiol a gwaith grŵp cydweithredol; • yn hybu dysgu gweithredol ac annibynnol sy'n galluogi dysgwyr i feddl drostynt eu hunain, ac i

		gynllunio a rheoli eu dysgu eu hunain.
Gyda chyfarwyddyd, maent yn dechrau gwahaniaethu eu haddysgu er mwyn bodloni anghenion dysgwyr.	Gyda chyfarwyddyd lle bo'n briodol, maent yn gwahaniaethu eu haddysgu er mwyn bodloni anghenion dysgwyr.	S3.3.4 Maent yn gwahaniaethu eu haddysgu er mwyn bodloni anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai mwy galluog a dawnus, a'r rheini ag anghenion addysgol arbennig. Gallant gael cyfarwyddyd gan athro profiadol pan fo hynny'n briodol.
Gyda chyfarwyddyd, maent yn dechrau cefnogi'r rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu haddysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith neu i ffurf iaith eu cartref.	Gyda chyfarwyddyd lle bo'n briodol, maent yn dangos gallu cynyddol i gefnogi'r rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu haddysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith neu i ffurf iaith eu cartref.	S3.3.5 Maent yn gallu cefnogi'r rheini sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg os mai dyna'r iaith y maent yn cael eu dysgu ynddi a'i bod yn wahanol i iaith, neu i ffurf iaith, eu cartref, gyda chymorth athro profiadol pan fo hynny'n briodol.
Gyda chyfarwyddyd, maent yn dechrau rhoi ystyriaeth i amrywiol ddiddordebau a phrofiadau dysgwyr er mwyn eu cynorthwyo i ddod yn eu blaenau.	Gyda chyfarwyddyd lle bo'n briodol, maent yn dechrau rhoi ystyriaeth i amrywiol ddiddordebau a phrofiadau dysgwyr er mwyn eu cynorthwyo i ddod yn eu blaenau.	S3.3.6 Maent yn rhoi ystyriaeth i amrywiol ddiddordebau, profiadau a llwyddiannau pob un y maent yn eu haddysgu er mwyn cynorthwyo dysgwyr i ddod yn eu blaenau'n dda.
Gyda chymorth, maent yn dechrau trefnu a rheoli amser addysgu a dysgu yn briodol.	Maent yn trefnu a rheoli amser addysgu a dysgu gyda chymhwysedd cynyddol.	S3.3.7 Maent yn trefnu a rheoli amser addysgu a dysgu yn effeithiol.
Maent yn dechrau trefnu a rheoli y man addysgu ffisegol, yr offer, y deunyddiau, y testunau a'r adnoddau eraill yn ddiogel ac yn briodol, gyda help athrawon	Gyda chymhwysedd cynyddol maent yn trefnu ac yn rheoli y man addysgu ffisegol, yr offer, y deunyddiau, y testunau a'r adnoddau eraill yn ddiogel ac yn	S3.3.8 Maent yn trefnu ac yn rheoli y man addysgu ffisegol, yr offer, y deunyddiau, y testunau a'r adnoddau eraill yn ddiogel ac yn effeithiol, gyda help staff cymorth pan fo hynny'n

dosbarth a staff cymorth.	briodol, gyda help staff cymorth pan fo hynny'n briodol.	briodol.
Maent yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad dysgwyr ac yn dechrau sefydlu fframwaith priodol ar gyfer disgyblaeth yr ystafell ddosbarth er mwyn rhagweld a rheoli ymddygiad dysgwyr yn adeiladol.	- Maent yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad dysgwyr ac yn sefydlu fframwaith priodol ar gyfer disgyblaeth yr ystafell ddosbarth er mwyn rhagweld a rheoli ymddygiad dysgwyr yn adeiladol. - Maent yn dechrau hybu hunanreolaeth ac annibyniaeth dysgwyr.	S3.3.9 Maent yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad dysgwyr ac yn sefydlu fframwaith clir ar gyfer disgyblaeth yr ystafell ddosbarth er mwyn rhagweld a rheoli ymddygiad dysgwyr yn adeiladol, ac i hybu hunanreolaeth ac annibyniaeth.
Maent yn dechrau defnyddio TGCh yn briodol yn eu haddysgu.	Maent yn defnyddio TGCh yn eu haddysgu gydag ymwybyddiaeth gynyddol o'i phriodoldeb a'i heffaith.	S3.3.10 Maent yn defnyddio TGCh yn effeithiol yn eu haddysgu.
- Maent yn dechrau cymryd cyfrifoldeb dros addysgu dosbarth neu ddosbarthiadau dros gyfnod penodol o amser. - Maent yn dechrau addysgu ar draws ystod o lefelau gallu.	- Gyda chymorth lle bo'n briodol, maent yn cymryd cyfrifoldeb dros addysgu dosbarth neu ddosbarthiadau dros gyfnod parhaus o amser. - Gyda chymhwysedd cynyddol, maent yn gallu addysgu ar draws ystod o lefelau gallu yn yr ystod oed yr hyfforddwyd hwy ar ei gyfer.	S3.3.11 Maent yn gallu cymryd cyfrifoldeb dros addysgu dosbarth neu ddosbarthiadau dros gyfnod parhaus a sylweddol o amser. Maent yn gallu addysgu ar draws yr ystod oed a gallu yr hyfforddwyd hwy ar ei gyfer.
Maent yn dechrau darparu gwaith cartref a/neu dasgau eraill y tu allan i'r dosbarth sy'n cadarnhau gwaith a wnaed yn y dosbarth.	Maent yn darparu gwaith cartref a/neu dasgau eraill y tu allan i'r dosbarth sy'n cadarnhau neu yn ymestyn gwaith a wnaed yn y	S3.3.12 Maent yn gallu darparu gwaith cartref a gwaith arall y tu allan i'r dosbarth sy'n cadarnhau ac yn ymestyn gwaith a wnaed yn y dosbarth ac sy'n

	dosbarth.	annog dysgwyr i ddysgu yn annibynnol.
- Gyda chyfarwyddyd, maent yn dechrau cydweithio ag athrawon arbenigol a chydweithwyr eraill. - Gyda help athro profiadol, maent yn dechrau rheoli gwaith cynorthwywyr addysgu neu oedolion eraill.	- Gyda chyfarwyddyd, maent yn cydweithio ag athrawon arbenigol a chydweithwyr eraill. - Gyda help athro profiadol pan fo hynny'n briodol, maent yn rheoli gwaith cynorthwywyr addysgu neu oedolion eraill er mwyn ychwanegu at ddysg y rheini y maent yn eu haddysgu.	S3.3.13 Maent yn cydweithio ag athrawon arbenigol a chydweithwyr eraill ac, gyda chymorth athro profiadol pan fo hynny'n briodol, yn rheoli gwaith cynorthwywyr addysgu neu oedolion eraill er mwyn ychwanegu at ddysg y rheini y maent yn eu haddysgu.
- Gyda chyfarwyddyd, maent yn dechrau adnabod ac ymateb yn briodol i faterion sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal pan fyddant yn codi yn yr ystafell ddosbarth. - Gyda chyfarwyddyd, maent yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau perthnasol i herio bwlio neu aflonyddu.	- Dan gyfarwyddyd yr athro dosbarth, maent yn adnabod ac yn ymateb yn briodol i faterion sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal pan fyddant yn codi yn yr ystafell ddosbarth. - Gyda chyfarwyddyd pan fo hynny'n briodol, maent yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau perthnasol i herio bwlio neu aflonyddu.	S3.3.14 Maent yn adnabod ac yn ymateb yn effeithiol i faterion sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal pan fyddant yn codi yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys trwy herio safbwyntiau ystrydebol, a thrwy herio bwlio neu aflonyddu, gan ddilyn y polisiau a gweithdrefnau perthnasol.
Gyda chymorth yr athro dosbarth, maent yn dechrau cymryd cyfleoedd priodol i addysgu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.	Gyda chyfarwyddyd, maent yn cymryd cyfleoedd priodol i addysgu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn rhai agweddau perthnasol o'u haddysgu.	S3.3.15 Maent yn cymryd cyfleoedd priodol i addysgu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ym mhob agwedd berthnasol o'u haddysgu.